



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# Prif Swyddog Meddygol Cymru

## Diweddariad 92: Mehefin 2018



Croeso i Ddiweddariad y Prif Swyddog Meddygol. Fy nod i yn y diweddariad hwn fydd rhoi crynodeb i weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru o newyddion cyfoes, canllawiau a datblygiadau sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion sy'n berthnasol i ansawdd y gwasanaeth iechyd a gwella iechyd y boblogaeth. Gobeithio y byddant o ddefnydd i chi. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau am y cynnwys neu awgrymiadau ynglŷn ag erthyglau/pynciau mae croeso i chi anfon e-bost ataf: [DS.ChiefMedicalOfficer@llyw.cymru](mailto:DS.ChiefMedicalOfficer@llyw.cymru).

Diolch i chi am eich gwaith cyson yn cefnogi iechyd a llesiant pawb yng Nghymru.

**Frank Atherton**  
Prif Swyddog Meddygol Cymru

### Yn y rhifyn hwn:

Diwygio Contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) ar gyfer 2018/2019	02
Rhaglen waith ar y cyd i ddatblygu system sy'n cefnogi gwaith trawsffiniol yn llawn	02
Yr Ysgrifennydd Iechyd yn cyhoeddi cynllun indemniad proffesiynol gyda chefnogaeth y wladwriaeth i feddygon teulu Cymru	03
Cefnogi pobl â nam ar y synhwyrâu yng Nghymru	04
Sefydlu Cofrestr Parlys yr Ymennydd ar gyfer Cymru	04
Ymgynghoriad ar Ganllaw 'Byw â Phoen Cyson'	06
Ymgynghoriad ar Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018	06
Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru (AWMSG)	07

# Diwygio Contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) ar gyfer 2018/2019

Mae Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig i gyhoeddi bod y trafodaethau ar gyfer contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) 2018/2019 wedi dod i ben erbyn diwedd Chwefror 2018. Daethpwyd i'r cytundebau canlynol ar gyfer blwyddyn gcontractio 2018/2019:

- Cynnydd o 1% ar gyfer cyflog a chynnydd o 1.4% ar gyfer treuliau cyffredinol (ac eithrio indemniad, sy'n cael ei drin ar wahân). Bydd y cynnydd yn cael ei gymhwyso at swm

byd-eang a'r gwasanaeth uwch ar gyfer brechiadau ac imiwneiddiadau.

- Cynnydd ar gyfer indemniad proffesiynol, gan gydnabod y cynnydd penodol a welir yn y farchnad indemniad o ganlyniad i'r newid mewn cyfraddau disgownt a gyhoeddwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

Gallwch ddarllen y datganiad ysgrifenedig yma:

<http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/gmscontractreform/>

## Rhaglen waith ar y cyd i ddatblygu system sy'n cefnogi **gwaith trawsffiniol** yn llawn



Dylai ymchwilwyr a noddwyr ymchwil masnachol ac anfasnachol ei chael hi'n haws i sefydlu astudiaethau a chynnal ymchwil iechyd mewn mwy nag un wlad yn y DU o ganlyniad i Raglen Cydweddu â'r Pedair Gwlad.

Mae rhaglen waith ar y cyd rhwng yr Awdurdod Ymchwil Iechyd (HRA), Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon (HSC), Swyddfa'r Prif Wyddonwyr yn yr Alban (CSO) ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, wedi arwain at ddatblygu system sy'n cefnogi gwaith trawsffiniol, lleihau dyblygu

a sefydlu ymagwedd gyson tuag at rannu gwybodaeth ar draws noddwyr a safleoedd lle bynnag maen nhw yn y DU.

Mewn ymateb i'r cadarnhad cadarnhaol gan y gymuned ymchwil, Cymru yw'r cyntaf o'r cenhedloedd datganoledig i symud tuag at gam cyntaf y broses hon ac o 16 Ebrill 2018, mae wedi alinio ei phroses a'i gwaith papur i sicrhau cysondeb ar draws Cymru a Lloegr cyn gweithredu'n llawn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â [HealthandCareResearch@wales.nhs.uk](mailto:HealthandCareResearch@wales.nhs.uk)

# Yr Ysgrifennydd Iechyd yn cyhoeddi **cynllun indemniad proffesiynol** gyda chefnogaeth y wladwriaeth i feddygon teulu Cymru

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Iechyd, Vaughan Gething ar 14 Mai 2018 y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun gyda chefnogaeth y wladwriaeth i ddarparu indemniad rhag esgeuluster clinigol i feddygon teulu yng Nghymru.

Bydd y cynllun, y bwriedir iddo ddod i rym ym mis Ebrill 2019, yn cynnwys yr holl ymarferwyr cyffredinol sydd wedi'u contraction ynghyd â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gweithio ym maes ymarfer meddygol yn y GIG.

Daw hyn yn dilyn pryderon ynghylch cynnydd mewn costau indemniad, a allai o bosib droi meddygon teulu oddi wrth y proffesiwn, gan effeithio ar wasanaethau.

Bydd y cynllun mor agos â phosib at y cynllun gyda chefnogaeth y wladwriaeth a gyhoeddwyd yn Lloegr, er mwyn sicrhau nad yw meddygon teulu Cymru dan anfantis o gymharu â rhai Lloegr ac na fydd unrhyw effaith negyddol ar weithgarwch trawsffiniol neu recriwtio yn sgil gwahanol gynlluniau yn gweithredu yn y ddwy wlad.

Dyweddodd Vaughan Gething:

"Rydyn ni wedi gwrandao ar bryderon meddygon teulu. Rydwn ni'n deall yr effaith y mae costau cynyddol indemniad proffesiynol yn ei chael ar y gweithlu a'r potensial ar gyfer pwysau yn y dyfodol pe bai gwahanol arferion indemniad ar waith yng Nghymru a Lloegr.

"Rydyn ni wedi cyfrannu tuag at gostau cynyddol indemniad drwy'r ymgodiad

blynyddol i dâl a chostau meddygon teulu ers 2017, ond heddiw rydyn ni'n cymryd cam pellach i ymateb i bryderon y meddygon drwy gynnig ateb hirdymor a chynaliadwy.

"Mae hyn yn arwydd pellach o'n hymrwymiad i fuddsoddi mewn gofal sylfaenol yng Nghymru, ac i ddenu mwy o feddygon teulu i weithio yma gan ein helpu i sicrhau bod ein gwasanaeth iechyd yn gynaliadwy yn y tymor hir.

"Gobeithio y bydd y cyhoeddiad heddiw yn tawelu meddyliau'r meddygon sy'n gweithio mor galed yma."

Dyweddodd Dr Charlotte Jones, Cadeirydd Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol BMA Cymru Wales, a'r Is-gadeirydd, Dr Peter Horvath-Howard:

"Mae'r Pwyllgor o'r farn bod symud tuag at system indemniad gyda chefnogaeth y wladwriaeth i holl ymarferwyr cyffredinol Cymru yn gam pwysig iawn ymlaen i wella cynaliadwyedd ymarfer meddygol yng Nghymru drwy roi sylw i'r costau sylweddol hyn ar feddygon.

"Mae'n galonogol clywed y bydd y cynllun yn cynnwys y tîm clinigol ehangach, ac yn sicrhau y bydd unrhyw atebolrwydd sydd gan feddygon teulu dros y timau amlddisgyblaethol ehangach sy'n gweithio ar draws clystyrau yn cael ei gynnwys.

"Edrychwn ymlaen at gael gweithio ar y manylion gyda Llywodraeth Cymru, sy'n amlwg wedi gweld bod angen gweithredu ar y mater cymhleth hwn."

# Cefnogi pobl â nam ar y synhwyrau yng Nghymru

Er mwyn sicrhau bod anghenion pobl sydd â nam ar eu synhwyrau yn cael eu bodloni wrth gael gafael ar ein gwasanaethau gofal iechyd, cofiwch am Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwyl, a lansiwyd yn 2013. Mae'r ddogfen yn nodi'r safonau o ddarparu gwasanaeth y dylai pobl â nam ar eu synhwyrau eu disgwyl pan fyddant yn cael gofal iechyd. Mae'r safonau hyn yn berthnasol i oedolion, pobl ifanc a phlant.

Mae yna hefyd ganllaw arfer orau ategol gan Action on Hearing Loss ar y ddolen atodedig. Gweler y canllaw, y gallwch ei lawrlwytho ar 'Deall anghenion eich claf – Canllaw arferion gorau ar gyfer meddygfeydd Meddygon Teulu'.

<https://www.actiononhearingloss.org.uk/about-us/our-work-across-the-uk/wales/how-we-support-you-in-wales/supporting-people-with-sensory-loss-in-wales/>



# Sefydlu Cofrestr Parlys yr Ymennydd ar gyfer Cymru

Parlys yr Ymennydd yw'r achos mwyaf cyffredin o anabledd corfforol difrifol mewn plant sydd â nifer achosion cyffredinol o 2 fesul 1000 o enedigaethau byw yn seiliedig ar ddata o wledydd eraill yng Ngogledd Ewrop. Mae nifer yr achosion Parlys yr Ymennydd yn ddangosydd iechyd cyhoeddus pwysig. Mae rheoli'r cyflwr

cymhleth hwn yn amrywiol iawn gyda thystiolaeth o ganlyniadau gwell yn dilyn rhaglenni gwyladwriaeth ac ymyrraeth genedlaethol. Mae'r Rhesymeg dros sefydlu Cofrestr Parlys yr Ymennydd i Gymru yn amlweddog ac yn cael ei hybu gan awydd i wella gwasanaethau ledled Cymru trwy gyd-gynhyrchu â phobl â Pharllys yr Ymennydd a'u teuluoedd.

Y ddau glinigydd sy'n arwain y prosiect yw Dr Rachel Lindoewood o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, sydd â diddordeb mewn Niwroanabledd, a Jenny Carroll, Ffisiotherapydd Ymgynghorol a Chyfarwyddwr Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru yng Nghaerdydd. Ym mis Gorffennaf 2017, dechreuodd Rachel ar Gymrodoriaeth Comisiwn Bevan sy'n para am ddwy flynedd, gyda mentor sy'n is-gadeirydd y rhwydwaith o gofrestrfeydd poblogaeth ar gyfer Arolygu Parlys yr Ymennydd yn Ewrop (SCPE) yn ei chefnogi yn y prosiect. Mae Jenny wedi cael arian elusennol hirdymor ar gyfer gweithiwr prosiect a ddechreuodd ei rôl, wedi'i lleoli gyda hi yng Nghaerdydd, ym mis Tachwedd 2017.

Sefydlwyd grŵp llywio cenedlaethol gyda chynrychiolwyr o ddisgyblaethau proffesiynol perthnasol, yn cynnwys bron pob un o'r byrddau iechyd, rhieni ac oedolyn ifanc â Pharlys yr Ymennydd. Roedd Aelodaeth hefyd yn cynnwys arweinydd grŵp cenedlaethol

llwybr Integredig Parlys yr Ymennydd (CPIP) (a sefydlwyd eisoes ac sy'n edrych yn benodol ar wyladwriaeth y glun), Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, y Gofrestr Anomaledau Cynhenid a Gwasanaeth Gwybodaeth i Gymru (CARIS), is-gadeirydd SCPE ac Academi Bevan.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp llywio 1 Rhagfyr a bydd yn datblygu cynllun gwaith gan gynnwys digwyddiadau rhanddeiliaid ar gyfer pobl ifanc ac oedolion â pharlys yr ymennydd, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn gynnar yn 2018. Cytunir ar natur, cwmpas a phwrpas y gofrestr – gyda chynlluniau i beilota'r gofrestr mewn un neu ddau fwrdd iechyd, gan ddefnyddio cysylltiad cronfa ddata electronig a themau safonol SNOMED a disgrifyddion eraill i fwydo i mewn i set ddata gyffredin SCPE ochr yn ochr â phlatform cleifion gyda chefnogaeth gan NWIS.



# Ymgynghoriad ar Ganllaw 'Byw â Phoen Cyson'

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, academyddion a defnyddwyr gwasanaethau i ddatblygu fframwaith ar gyfer byw gyda phoen cyson. Bydd y fframwaith yn disodli'r Gyfarwyddeb Datblygu a Chomisiynu Gwasanaeth ar gyfer Poen Anfalaen Cronig, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2008. Mae fframwaith drafft bellach wedi'i gynhyrchu ar gyfer ymgynghori gan ddefnyddio egwyddorion cyd-gynhyrchu.

Mae modd cael mynediad at yr ymgynghoriad yma: <https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Byddwn yn eich annog chi a'ch rhanddeiliaid i gyfrannu eich sylwadau at yr ymgynghoriad.

# Ymgynghoriad ar Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018

<https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-mangreoedd-cherbydau-di-fwg-cymru-2018>

Ar 25 Mai, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft o Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018.

Bydd Rheoliadau 2018 yn rhoi Pennod 1 o Ran 3 Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 ar waith mewn perthynas ag ysmegu, a bydd yn disodli Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007.

Eu nod fydd:

- dadnormaleiddio ysmegu ymhellach, yn enwedig yn achos plant a phobl ifanc;
- amddiffyn pobl rhag y niweidiau sy'n gysylltiedig â dod i gysylltiad â mwg ail-law;

- lleihau anghydraddoldebau iechyd;
- cefnogi ymdrechion i roi'r gorau i ysmegu.

Gan ddefnyddio pwerau yn Neddf 2017, bydd y Rheoliadau drafft yn gwneud y darpariaethau ychwanegol sy'n ofynnol i wahardd ysmegu mewn tiroedd ysbytai, tiroedd ysgol a meysydd chwarae cyhoeddus yn Neddf 2017. Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn cynnig newidiadau i'r gwaharddiad ysmegu presennol, gan gynnwys dileu'r eithriad sy'n caniatáu dynodi ystafelloedd ysmegu mewn unedau iechyd meddwl a llety â gwasanaeth dros gyfnod pontio ac ymlacio'r gofynion ar gyfer arwyddion dim ysmegu.

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 16 Awst 2018.

# Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru (AWMSG)



## Canllaw Cymru Gyfan: Ffarmacotherapi ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu

Mae'r canllaw hwn yn cefnogi rhagnodi a chyflenwi ffarmacotherapi rhoi'r gorau i ysmegu priodol yn GIG Cymru, ar gyfer ysmygwyr sy'n cael eu cymell i roi'r gorau iddi. Hyrwyddir rhagnodi a chyflenwi fesul cam i dargedu anghenion yr unigolyn yn agosach yn ystod eu hymgais i roi'r gorau iddi a lleihau'r potensial i wastraffu. Cafodd y canllaw hwn ei gymeradwyo gan AWMSG ym mis Chwefror 2018.

## Llyfr Fformiwlâu Anhwylderau Cyffredin Cymru Gyfan

Datblygwyd Llyfr Fformiwlâu Anhwylderau Cyffredin Cymru Gyfan i gefnogi gweithrediad Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin Llywodraeth Cymru mewn fferyllfeydd yng Nghymru. Mae'n darparu arweiniad ar sail tystiolaeth ar gyfer rheoli anhwylderau cyffredin, sy'n cefnogi dull cyson gan fferyllwyr a Meddygon Teulu. Cafodd y canllaw hwn ei gymeradwyo gan AWMSG ym mis Chwefror 2018.

## Defnydd Diogel o Atalwyr Pwmp Proton

Nod y ddogfen hon yw amlygu materion diogelwch cleifion sy'n gysylltiedig â defnydd hirdymor o atalwyr pwmp proton (PPI) mewn oedolion, a helpu i fynd i'r afael â hyn. Mae'n cynnwys enghreifftiau o ddeunydd ategol y gellir ei ddefnyddio neu ei addasu at y diben hwn. Cafodd y ddogfen ei chymeradwyo gan AWMSG ym mis Chwefror 2018.

## Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol (DRhC) 2018–2019

Mae'r papur hwn yn manylu ar y DRhC a fydd yn cael eu monitro ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-2019. Mae'r DRhC ar gyfer 2018-2019 yn canolbwyntio ar ddiogelwch, stiwardiaeth ac effeithlonrwydd ac felly wedi'u categorio fel y cyfryw. Datblygwyd dau DRhC newydd; dyma'r Dangosyddion Diogelwch wedi'u Rhagnodi ar gyfer gofal sylfaenol, a chofnodi Cerdyn Melyn mewn gofal eilaidd a'r cyhoedd.

Mae crynodeb byr o'r DRhC hefyd wedi'i gyhoeddi, o'r enw **Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 2018-2019: Gwybodaeth Ategol i Ragnodwyr** <http://www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/National%20Prescribing%20Indicators%202018-2019%20Supporting%20Information%20for%20Prescribers.pdf>. Mae'r ddogfen yn cynnwys trosolwg byr o bob DRhC, gan gynnwys: pwrpas, uned fesur, rhesymeg fer a phwyntiau rhagnodi, gyda dolenni at adnoddau defnyddiol. Cafodd y dogfennau hyn eu cymeradwyo gan AWMSG ym mis Chwefror 2018.

## Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 2017-2018 – Dadansoddi Data Rhagnodi at Fedi 2017

Mae'r papur hwn yn adrodd ar gynnydd byrddau iechyd yn erbyn pob un o'r Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol (DRhC) 2017-2018 ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd, i'r chwarter sy'n dod i ben ym Medi 2017. Dangosodd un ar ddeg o blith y deuddeg DRhC gofal sylfaenol â throthwy, welliant yn unol â nod y dangosydd. Mae yna hefyd dri DRhC gofal eilaidd, gan ganolbwyntio ar dri maes rhagnodi. Ar gyfer y DRhC analog inswlin a meddyginiaeth biodebyg sy'n gweithredu dros gyfnod hir, roedd gwelliant cyffredinol yn unol â nod y dangosydd. Ni wnaeth data am gyfnod o broffylacsis gwrthfotigau llawfeddygol y colon a'r rhefr ddangos newid. Cyflwynwyd y ddogfen hon i AWMSG er gwybodaeth ym mis Chwefror 2018.

## Crynodeb o Flaenoriaethau Therapiwtig a Rhaglen Rhagnodi Effeithiolrwydd Clinigol 2018-2019

Datblygwyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo byrddau iechyd wrth ddatblygu eu Rhaglenni Rhagnodi Effeithiolrwydd Clinigol (CEPP) a hefyd er mwyn cyfeirio at adnoddau ac archwiliadau defnyddiol. Cafodd y ddogfen hon ei chymeradwyo gan AWMSG ym mis Mawrth 2018.

## Strategaeth Pum Mlynedd AWMSG 2018-2023: Cefnogi rhagnodi darbodus i gael y canlyniadau gorau o feddyginiaethau i gleifion yng Nghymru

Mae'r ddogfen hon yn nodi strategaeth pum mlynedd ar gyfer AWMSG, sy'n cyd-fynd â menter *Gofal Iechyd Darbodus* Llywodraeth Cymru, a'r egwyddorion a amlinellwyd yn *Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru*. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau i gyflwyno strategaeth feddyginiaethau yng Nghymru sy'n hyrwyddo arfer rhagnodi diogel ac effeithiol y cyflawnir egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus. Mae'r argymhellion yn y strategaeth hon yn cyd-fynd â'r egwyddorion hyn er mwyn sicrhau bod gofal iechyd yn cyd-fynd ag anghenion ac amgylchiadau cleifion ac yn osgoi gofal gwastraffus. Cafodd y ddogfen hon ei chymeradwyo gan AWMSG ym mis Mawrth 2018.



## Cyngor AWMSG

Yn ddiweddar, mae Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru (AWMSG) wedi darparu cyngor ar nifer o feddyginiaethau, y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u cadarnhau. Os yw AWMSG yn argymhell meddyginiaeth ac yn cael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, rhaid i gyllid fod ar gael gan fyrddau iechyd o fewn dau fis ar ôl yr hysbysiad o gadarnhau. Os na chaiff meddyginiaeth ei hargymhell, ni ddylid ei rhagnodi fel mater o drefn yn GIG Cymru ar gyfer y dynodiad a nodir. Mae'r argymhellion AWMSG canlynol ar gael yn llawn ar wefan AWMSG: [www.awmsg.org](http://www.awmsg.org).

Cyfeirnod AWTTTC	Meddyginiaeth	Dynodiad
Meddyginiaethau a argymhellir		
2418	darunavir/ cobicistat/ emtricitabine/ tenofovir alafenamide (Symtuza) 800 mg/ 150 mg/200 mg/ 10 mg – tabled â haen	Trin haint Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol math 1 (HIV-1) mewn oedolion ac unigolion yn eu glasoed (12 oed a throsodd gyda phwysau corff sydd o leiaf 40kg)  <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2418">http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2418</a>
3343	lacosamide (Vimpat) 50 mg, 100 mg, 150 mg a 200 mg – tabledi â haen	Therapi atodol i drin trawiadau rhannol gyda neu heb drawiadau cyffredinol eilaidd mewn plant o $\geq 4$ oed tan $\leq 15$ oed gydag epilepsi  <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3343">http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3343</a>
3557	lopinavir/ritonavir (Kaletra) 80 mg/ 20 mg – i'w gymryd drwy'r geg	Mewn cyfuniad â chynhyrchion meddyginiaethol gwrthretrofeiol eraill ar gyfer trin plant rhwng 14 diwrnod a llai na 2 oed, sydd wedi'u heintio â firws imiwnoddiffygiant dynol (HIV-1)  <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3557">http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3557</a>

Cyfeirnod AWTTC	Meddyginiaeth	Dynodiad
3627	misoprostol (Mysodelle) 200 microgram – system geni drwy'r wain	Ysgogi esgor mewn merched sydd â cheg y groth nad ydyw'n barod i esgor, o gyfnod beichiogrwydd 36 wythnos, lle mae'r ysgogiad wedi'i nodi'n glinigol  <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3627">http://www.awmsg.org/awmsgonline/ app/appraisalinfo/3627</a>
Argymhellir gyda chyfyngiadau		
3397	levodopa- carbidopa (Duodopa) 20 mg/ ml + 5 mg/ml – hylif coluddol	Trin clefyd Parkinson datblygedig sy'n ymatebol i levodopa, gydag amrywiadau echddygol difrifol a hyper-/dyscinesia pan nad yw cyfuniadau o gynhyrchion meddyginiaethol Parkinson sydd ar gael wedi rhoi canlyniadau boddhaol  <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3397">http://www.awmsg.org/awmsgonline/ app/appraisalinfo/3397</a>
Nid argymhellir		
634	Afamelanotide (Scenesse) 16 mg – mewnblaniad isgroenol	Atal ffotowenwyndra mewn cleifion sy'n oedolion, â phrotoporffyria erythropoietig (EPP)  <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/634">http://www.awmsg.org/awmsgonline/ app/appraisalinfo/634</a>
1303	Rolapitant (Varuby) 90 mg – tabled â haen	Atal cyfog a chwydu gohiriedig sy'n gysylltiedig â chemotherapi canser emetogenig uchel a chymedrol mewn oedolion. Rhoddir Varuby fel rhan o therapi cyfunol  <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/1303">http://www.awmsg.org/awmsgonline/ app/appraisalinfo/1303</a>

Yn absenoldeb cyflwyniad gan ddeiliad yr awdurdodiad marchnata, ni ellir cymeradwyo'r meddyginiaethau canlynol i'w defnyddio o fewn GIG Cymru.

Cyfeirnod AWTTTC	Datganiadau o gyngor	Cwmni
3628	elvitegravir/cobicistat/ emtricitabine/tenofovir alafenamide (Genvoya) 150 mg/150 mg/ 200 mg/10 mg tabled â haen  <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3628">http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3628</a>	Gilead Sciences Ltd
3616	elvitegravir/cobicistat/ emtricitabine/tenofovir disoproxil (Stribild) 150 mg/150 mg/ 200 mg/245 mg tabled â haen  <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3616">http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3616</a>	Gilead Sciences Ltd
2028	peginterferon alfa-2a (Pegasys) 90 microgram, 135 microgram, 180 microgram toddiant i'w roi fel pigiad  <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2028">http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2028</a>	Roche Products Ltd

Bydd cyfarfod nesaf AWMSG ar 23 Mai 2018. Mae'r holl ddogfennau o'r cyfarfod ar gael ar wefan AWMSG cyn y cyfarfod.

[www.awmsg.org/meetings\\_awmsg\\_2018.html](http://www.awmsg.org/meetings_awmsg_2018.html)

#### Manylion cyswllt

**Frank Atherton**

**Prif Swyddog Meddygol**

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Rhif ffôn: **03000 257028**

E-bost: [pschiefmedicalofficer@gov.wales](mailto:pschiefmedicalofficer@gov.wales)



Dilynwch fi ar Twitter  
**@CMOWales**